

Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Canllawiau yn nodi rolau a chyfrifoldebau i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant yng Nghymru.

Rhagfyr 2019

Cefndir i'r canllawiau newydd

Mae gweithdrefnau diogelu Cymru yn disodli gweithdrefnau amddiffyn plant Cymru Gyfan 2008.

Mae gweithdrefnau diogelu Cymru yn helpu ymarferwyr i gymhwyso rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chyfrolau perthnasol y canllawiau statudol i gydweithio i ddiogelu pobl. Maen nhw'n diweddarau, cryfhau ac yn egluro'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i bawb eu dilyn, gyda'r nod o safoni arferion diogelu ledled Cymru a rhwng asiantaethau.

Mae hyperddolenni â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol drwy'r holl weithdrefnau, yn ogystal â geirfa i sicrhau bod pob ymarferydd yn defnyddio'r un term yn yr un modd. Mae awgrymiadau ar gyfer ymarfer wrth weithio gyda phlant hefyd wedi'u cynnwys wrth ddarparu gwybodaeth ar sut i gwblhau tasgau.

Datblygwyd y gweithdrefnau drwy siarad a gwrandao ar bartneriaid a grwpiau budd-ddeiliad ar draws Cymru. Arweiniwyd y broses hon gan Fwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a fydd yn diweddarau'r gweithdrefnau yn rheolaidd.

Mae angen i'r gweithdrefnau gael eu mabwysiadu gan bob un o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yng Nghymru - rhagwelir y byddant wedi cael eu rhoi ar waith erbyn mis Ebrill 2020.

Pynciau allweddol wedi'u cwmpasu gan y canllawiau

Mae chwe adran yn ymwneud â gweithdrefnau diogelu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed yng Nghymru.

Adran 1: Egwyddorion diogelu ac arfer effeithiol: plant

Mae'r adran hon yn cwmpasu:

- gwybodaeth am egwyddorion ymarfer diogelu sy'n sail i ddeddfwriaeth, arweiniad a gweithdrefnau
- yr egwyddorion sy'n arwain at system ddiogelu effeithiol
- diffiniadau allweddol sy'n berthnasol i ddiogelu plant fel yr amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- trosolwg o'r broses ddiogelu sy'n disgrifio'r gwahanol ffyrdd y gall ymarferwyr amddiffyn plant sydd mewn perygl rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod ynghyd â'u cyfrifoldebau i nodi, asesu ac ymyrryd
- cymorth a'r modd i atal yn gynnar i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg am gamdriniaeth, esgeulustod a niwed, gan amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r ymarferydd.

Adran 2: Y ddyletswydd i adrodd am blentyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso a/neu ei niweidio

Mae'r adran hon yn esbonio'r hyn y mae'n rhaid i ymarferwyr ei wneud os oes ganddynt bryderon am blentyn sydd mewn perygl o niwed, camdriniaeth a/neu esgeulustod gan gynnwys:

- beth yw'r ddyletswydd statudol i adrodd a beth mae'n ei olygu i ymarferwyr
- sut y dylai ymarferwyr ymateb mewn sefyllfaoedd penodol, er enghraifft pan fydd pryderon ynghylch plentyn sydd heb ei eni
- Y cyfrifoldebau y dylai ymarferydd eu hystyried wrth adrodd am bryder.

Adran 3 (rhan 1): Ymateb i adroddiad am blentyn mewn perygl o niwed, camdriniaeth a/neu esgeulustod.

Mae'r adran hon yn cwmpasu gweithdrefnau sy'n ymwneud â rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr yn dilyn adroddiad gan y gwasanaethau cymdeithasol ynghylch plentyn mewn perygl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod, gan gynnwys:

- beth yw ystyr niwed sylweddol

- beth i'w wneud yn dilyn adroddiad
- pwy i'w cynnwys a sut i'w hysbysu
- sut i ddatblygu pryderon.



Adran 3 (rhan 2): Cynadleddau gwneud penderfyniadau ac amddiffyn plant cychwynnol

Mae'r adran hon yn amlinellu'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer dod i gasgliad ar ymholiadau a47.

- beth yw'r ddyletswydd statudol i adrodd a beth mae'n ei olygu i ymarferwyr
- sut y dylai ymarferwyr ymateb mewn sefyllfaoedd penodol, er enghraifft pan fydd pryderon ynghylch plentyn sydd heb ei eni
- Y cyfrifoldebau y dylai ymarferydd eu hystyried wrth gwblhau dyletswydd i adrodd amdano.
- pwy i'w cynnwys yn y gynhadledd gychwynnol a sut i baratoi ar ei chyfer.
- y broses o wneud penderfyniadau a'r tasgau sy'n rhan o gynhadledd gychwynnol
- gweithdrefnau sydd eu hangen i ychwanegu plentyn at y Gofrestr Amddiffyn Plant a datblygu cynllun amddiffyn gofal a chymorth
- Camau i'w cymryd ar ôl y gynhadledd.

Adran 4: Cynllunio ac ymyrraeth ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn plant

Mae'r adran hon yn cynnwys y gweithdrefnau sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer plentyn ar y gofrestr. Mae'n cwmpasu:

- nodau a chynnwys cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth
- cynnwys y rhieni/gofalwyr yn y cynllun
- cyfranogiad y plentyn
- plant sy'n symud ar y gofrestr amddiffyn plant
- plant coll ar y gofrestr amddiffyn plant.

Adran 5: Honiadau/pryderon diogelu am ymarferwyr a'r rheini sydd mewn swyddi o ymddiriedaeth

Mae'r adran hon yn nodi trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu am y rhai y mae eu gwaith, naill ai yn waith â thâl neu'n waith gwirfoddol, yn dod â nhw i gysylltiad â phlant neu oedolion mewn perygl. Mae hefyd yn cynnwys unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant neu oedolion sydd angen gofal a chefnogaeth, a'r rhai y mae eu gwaith neu eu gwaith gwirfoddol yn dod â nhw i gysylltiad â phlant neu oedolion mewn perygl. Mae'r gweithdrefnau'n cwmpasu:

- pryd i ddefnyddio'r gweithdrefnau a'r egwyddorion trosfwaol hyn
- y cyfarfod strategaeth proffesiynol
- materion traws ffiniol
- cyfrinachedd a chofnod o'r cyfarfod strategaeth proffesiynol.

Adran 6. Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan

Mae'r gweithdrefnau'n cynnwys 10 canllaw ymarfer ar faterion penodol ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

- Diogelu plant rhag Cam-fanteisio Troseddol
- Diogelu plant rhag camdriniaeth ar sail credoau diwylliannol a chrefyddol
- Diogelu plant a allai fod mewn perygl o fasnachu plant
- Diogelu plant a allai gael eu heffeithio gan gamdriniaeth ddomestig
- Diogelu plant rhag esgeulustod
- Diogelu plant rhag camdriniaeth ar-lein
- Diogelu plant lle mae pryderon am ymddygiad rhywiol niweidiol
- Diogelu plant sy'n cael addysg yn y cartref
- Diogelu plant sy'n mynd ar goll o gartref neu o sefydliad gofal
- Diogelu plant rhag cam-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Darllenwch Weithdrefnau Diogelu Cymru

Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) www.diogelu.cymru [Caerdydd]: Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Geirdaon

Plant yng Nghymru (2008) www.diogelu.cymru [Caerdydd]: Plant yng Nghymru.

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/part/7>

Llywodraeth Cymru (2019) <https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/arweiniad-statudol> [Caerdydd]: Llywodraeth Cymru.

Mwy o ffyrdd i'ch helpu i ddiogelu plant

Rhowch gynnig ar ein cwrs ar-lein **Child protection: an introduction**



Cofrestrwch ar gyfer ein e-newyddlen ymwybyddiaeth gyfredol wythnosol
nspcc.org.uk/caspar



Ewch i **nspcc.org.uk/schools** i gael mwy o wybodaeth ac adnoddau ar gyfer ysgolion

